

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan
Court Farm, Torfaen) (Terfyn
Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025

The A4042 Trunk Road (Pontypool
Roundabout to Court Farm
Roundabout, Torfaen) (Temporary
50 mph Speed Limit) Order 2025

Gwnaed 30 Gorffennaf 2025
Yn dod i rym 4 Awst 2025

Made 30 July 2025
Coming into force 4 August 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Pont-y-pŵl i Gylchfan Court Farm, Torfaen) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2025.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Pontypool Roundabout to Court Farm Roundabout, Torfaen) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2025 and this Order comes into force on 4 August 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽¹⁾;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984⁽¹⁾;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road;

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Gorffennaf 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 July 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol y gylchfan honno.

Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 216 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Cerbyttffordd gylchredol gyfan Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan Court Farm hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbyttffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o'r gylchfan honno.

SCHEDULE

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 36 metres south of Pontypool Roundabout to its junction with the southern side of that roundabout.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout to a point 216 metres north-east of that roundabout.

The entire circulatory carriageway of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 45 metres south of its junction with the south-eastern side of Court Farm Roundabout to its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the south-eastern side of Pontypool Roundabout to a point 40 metres south of that roundabout.